Atodiad: Asesiad risg iechyd a diogelwch

Lleoliad y gweithle: Ysgol
Tasg neu weithgaredd: Gweithredu sesiynau brecwast am ddim

Perygl	Pwy allai gael ei niweidio?	Sgôr risg	A yw'r risg wedi'i rheoli'n ddigonol?	Pa gamau pellach sydd eu hangen i reoli'r risg?	Risg weddilliol
Dim ond peryglon y gallech yn rhesymol ddisgwyl iddynt arwain at niwed sylweddol o dan yr amodau yn eich gweithle y dylech chwilio amdanynt. Defnyddiwch yr enghreifftiau canlynol fel canllaw: • peryglon llithro neu faglu • sŵn • trydan • mygdarth • tân • cerbydau • llwch • trais • cemegion • rhannau symudol o beiriannau • codi a symud • gweithio ar uchder • alldaflu deunyddiau • goleuadau gwael • systemau dan bwysedd • tymheredd isel	Nid oes angen rhestru unigolion wrth eu henwau – meddyliwch am grwpiau o bobl sy'n gwneud gwaith tebyg neu a allai gael niwed, er enghraifft: • staff swyddfa • gweithredwyr • personél cynnal a chadw • glanhawyr • contractwyr • aelodau'r cyhoedd • pobl sy'n rhannu eich gweithle Rhowch sylw arbennig i'r canlynol: • pobl anabl • pobl ifanc • staff dibrofiad • ymwelwyr • gweithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain • menywod beichiog neu fenywod sy'n bwydo ar y fron	Blaenori aethwch y risg fel Uchel, Canolig neu Isel	Ydych chi eisoes wedi cymryd camau rhagofalus yn erbyn y risgiau o'r peryglon a restrwyd gennych? Er enghraifft: ydych chi wedi darparu: • gwybodaeth, cyfarwyddyd neu hyfforddiant digonol? • systemau neu weithdrefnau diogel digonol? A yw'r camau rhagofalus: • yn cyrraedd y safonau a osodir drwy ofyniad cyfreithiol? • yn cydymffurfio â safon gydnabyddedig? • yn arfer da? • yn lleihau risg i'r graddau ag y bo'n rhesymol ymarferol? Os felly, yna mae'r risgiau wedi'u rheoli'n ddigonol, ond mae angen i chi nodi'r camau rhagofalus sydd gennych ar waith. Gallwch gyfeirio at weithdrefnau a llawlyfrau sy'n rhoi'r wybodaeth hon.	Beth yn rhagor y gallech chi ei wneud yn rhesymol o ran y risgiau hynny y gwelsoch nad oeddent yn cael eu rheoli'n ddigonol? Dylid rhoi blaenoriaeth i'r risgiau hynny sy'n effeithio ar nifer mawr o bobl neu a allai arwain at niwed difrifol. Defnyddiwch yr egwyddorion isod wrth gymryd camau pellach, yn y drefn ganlynol os oes modd: • dileu'r risg yn llwyr • rhoi cynnig ar opsiwn llai peryglus • atal mynediad at y perygl (er enghraifft drwy warchod) • trefnu gwaith i leihau amlygiad i'r perygl • rhoi cyfarpar diogelu personol	Blaenoriaethwch y risg fel uchel, canolig neu isel

Rhestrwch y peryglon yma	Rhestrwch grwpiau o bobl sy'n wynebu risg benodol o'r peryglon sylweddol a nodwyd gennych	Risg	Rhestrwch y rheolaethau presennol yma neu nodwch lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth	Disgrifiwch y camau gweithredu sydd eu hangen (lle y bo'n rhesymol ymarferol) i reoli risgiau, gan nodi'r dyddiad targed ar gyfer y cam gweithredu a'r person a fydd yn ei gymryd	Risg weddilliol
Diogelwch gwael adeiladau ysgol Trais yn y gwaith	Staff brecwast am ddim Dysgwyr brecwast am ddim Rhieni dysgwyr (sy'n mynychu sesiynau brecwast)	C	Lle y bo'n briodol, dylai mynediad at sesiynau brecwast am ddim fod o brif fynedfa'r ysgol, gan fod system rheoli mynediad diogelwch yn y lleoliad hwn. Os nad yw hyn yn briodol (er enghraifft sesiynau brecwast am ddim sy'n gweithredu mewn ardaloedd ymhell o'r brif fynedfa neu mewn adeiladau ar wahân i brif adeilad yr ysgol) dylid sefydlu pwynt mynediad addas sydd â system mynediad diogelwch addas.	Os cynhelir y sesiwn brecwast am ddim mewn ardaloedd ymhell o'r pwynt mynediad (ystafelloedd dosbarth ar ddiwedd y coridor neu ystafelloedd ar y llawr cyntaf) dylid ystyried darparu system mynediad diogelwch weledol a lleisiol fel y gall staff sy'n caniatáu mynediad weld pwy sydd yno cyn datgloi'r drysau mynediad o bell.	I
			Anogir staff brecwast am ddim i herio unrhyw ymwelwyr yn yr adeilad (heblaw am rieni neu ofalwyr cyfarwydd sy'n dod gyda'u plant o bosibl). Darperir cyswllt, system neu linell ffôn gyfathrebu ac mae ar gael yn ardal y sesiwn brecwast am ddim fel bod staff yn gallu ffonio am gymorth os oes angen. (Mae gan staff sesiwn brecwast am ddim eu ffonau symudol eu hunain hefyd.) Cedwir cofrestr o bob dysgwr sy'n mynychu.		

Rhestrwch y peryglon yma	Rhestrwch grwpiau o bobl sy'n wynebu risg benodol o'r peryglon sylweddol a nodwyd gennych	Risg	Rhestrwch y rheolaethau presennol yma neu nodwch lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth	Disgrifiwch y camau gweithredu sydd eu hangen (lle y bo'n rhesymol ymarferol) i reoli risgiau, gan nodi'r dyddiad targed ar gyfer y cam gweithredu a'r person a fydd yn ei gymryd	Risg weddilliol
Rheoli diogelwch tân yn wael	Staff brecwast am ddim Dysgwyr brecwast am ddim Rhieni neu ofalwyr dysgwyr (sy'n mynychu sesiynau brecwast am ddim)	U	Mae asesiad risg tân presennol yr ysgol wedi'i adolygu mewn perthynas â gweithredu'r sesiwn brecwast am ddim. Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y dylid dal drysau tân coridor ar agor: • am gyfnodau byr iawn dros dro (megis yn ystod gweithrediadau glanhau) • gyda dyfeisiau dal ar agor electromagnetig neu sonig sydd wedi'u cysylltu â'r system larwm tân fel eu bod yn cau pan fydd y larwm yn cael ei gweithredu Mae hysbysiadau gweithredu tân ysgol yn cael eu harddangos ym mhob pwynt canu larwm ac ym mhob ystafell a ddefnyddir ar gyfer sesiynau brecwast am ddim Mae staff brecwast am ddim yn gyfarwydd â gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer gadael yr adeilad os bydd tân ac wedi cael cyfarwyddyd arnynt. Cynhelir ymarferion ar gyfer gadael yr adeilad mewn argyfwng bob tymor (ar y dechrau yn ddelfrydol, i ystyried staff a dysgwyr newydd). Mae pob ymarfer yn cael ei gofnodi yng nghofnodlyfr diogelwch tân yr ysgol. Defnyddir y gofrestr o ddysgwyr sy'n mynychu'r sesiwn brecwast am ddim os bydd angen gadael yr adeilad mewn argyfwng at ddibenion cyfrif pennau.	Mae'r staff priodol yn ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth o dân	I

Rhestrwch y peryglon yma	Rhestrwch grwpiau o bobl sy'n wynebu risg benodol o'r peryglon sylweddol a nodwyd gennych	Risg	Rhestrwch y rheolaethau presennol yma neu nodwch lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth	Disgrifiwch y camau gweithredu sydd eu hangen (lle y bo'n rhesymol ymarferol) i reoli risgiau, gan nodi'r dyddiad targed ar gyfer y cam gweithredu a'r person a fydd yn ei gymryd	Risg weddilliol
Darpariaeth cymorth cyntaf amhriodol	Staff brecwast am ddim Dysgwyr brecwast am ddim Rhieni dysgwyr (sy'n mynychu sesiynau brecwast am ddim)	I	Mae pob aelod o'r staff brecwast am ddim yn ymwybodol o leoliad y bocs cymorth cyntaf Mae arwyddion priodol yn eu lle sy'n nodi lleoliad y bocs cymorth cyntaf. Niferoedd addas a digonol o staff brecwast am ddim wedi'u hyfforddi mewn cymhwyster cymorth cyntaf priodol yn y gwaith (safon ofynnol person penodedig a chymorth mewn argyfwng) Darperir cyswllt cyfathrebu allanol neu ffôn yn ardal y sesiwn brecwast am ddim neu'n agos at yr ardal honno, sydd ar gael i gysylltu â'r gwasanaethau brys os bydd angen (er enghraifft ambiwlans).	Dylid cynnwys y bocs cymorth cyntaf ar gyfer y sesiwn brecwast am ddim yn nhrefniadau presennol yr ysgol er mwyn edrych ar y cynnwys yn rheolaidd a'i ailgyflenwi	I
Dewis amhriodol o ystafelloedd ar gyfer gweithgareddau brecwast am ddim	Staff brecwast am ddim Dysgwyr brecwast am ddim Rhieni dysgwyr (sy'n mynychu sesiynau brecwast am ddim)	I	Ystyriwyd bod pob ystafell a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau yn rhesymol, o ran maint a chynllun, ar gyfer y nifer mwyaf posibl o ddysgwyr sy'n mynychu.		I

Rhestrwch y peryglon yma	Rhestrwch grwpiau o bobl sy'n wynebu risg benodol o'r peryglon sylweddol a nodwyd gennych	Risg	Rhestrwch y rheolaethau presennol yma neu nodwch lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth	Disgrifiwch y camau gweithredu sydd eu hangen (lle y bo'n rhesymol ymarferol) i wneud rhagor i reoli risgiau, gan nodi'r dyddiad targed ar gyfer y cam gweithredu a'r person a fydd yn ei gymryd	Risg weddilliol
Defnyddio sylweddau sy'n beryglus i iechyd a dod i gysylltiad â nhw	Staff brecwast am ddim Dysgwyr brecwast am ddim Rhieni dysgwyr (sy'n mynychu sesiynau brecwast am ddim)	C	Lle defnyddir peiriannau golchi llestri, rhoddir ystyriaeth i'r cynhyrchion glanhau a ddefnyddir a'r risgiau o anaf o'u defnyddio, eu trin a'u storio. Ar gyfer pob cynnyrch, mae taflen ddata'r gweithgynhyrchydd ar y peryglon ar gael ac mae asesiad risg COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) ar waith. Darperir cyfarpar diogelu personol addas a digonol i'r staff yn unol ag asesiad risg COSHH ar gyfer pob cynnyrch. Staff brecwast am ddim i fod yn ymwybodol o asesiadau risg COSHH a'r gofynion ynglŷn â chyfarpar diogelu personol. Rhaid i ddogfennaeth fod ar gael yn hwylus rhag ofn bod angen cyfeirio ati ar fyrder, er enghraifft os bydd cysylltiad damweiniol drwy dasgu i'r llygad. Mae pob cynnyrch sy'n cael ei ddosbarthu'n un peryglus i iechyd yn cael ei storio'n ddiogel ac nid yw'n hygyrch yn ffisegol i ddysgwyr nac unrhyw bersonau eraill.	Ystyriwch ddod o hyd i gynhyrchion glanhau llai peryglus ar gyfer y peiriant golchi llestri.	I

Rhestrwch y peryglon yma	Rhestrwch grwpiau o bobl sy'n wynebu risg benodol o'r peryglon sylweddol a nodwyd gennych	Risg	Rhestrwch y rheolaethau presennol yma neu nodwch lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth	Disgrifiwch y camau gweithredu sydd eu hangen (lle y bo'n rhesymol ymarferol) i wneud rhagor i reoli risgiau, gan nodi'r dyddiad targed ar gyfer y cam gweithredu a'r person a fydd yn ei gymryd	Risg weddilliol
Defnyddio cyfarpar trydanol	Staff brecwast am ddim Dysgwyr brecwast am ddim Rhieni dysgwyr (sy'n mynychu sesiynau brecwast am ddim)	C	Mae gan yr ysgol weithdrefnau ar waith i brofi pob darn o gyfarpar trydanol cludadwy o bryd i'w gilydd (bob blwyddyn ar hyn o bryd) a'i gynnal a'i gadw (gan berson cymwys). Ychwanegir unrhyw gyfarpar trydanol sydd newydd ei brynu at stocrestr yr ysgol er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei brofi ar yr adeg nesaf a drefnwyd. Mae gan yr ysgol weithdrefnau ar waith i brofi a chynnal a chadw gosodiadau trydanol sefydlog o bryd i'w gilydd ac o leiaf bob 5 mlynedd (gan berson cymwys). Os prynwyd nifer o eitemau trydanol cludadwy ychwanegol, ystyriwyd darparu socedi pŵer ychwanegol yn yr ardal paratoi bwyd er mwyn peidio â gorlwytho socedi.	Atgoffir staff brecwast am ddim yn rheolaidd i beidio â dod ag eitemau trydanol i mewn o'r cartref i'w defnyddio. Dylid tynnu addaswyr 2-ffordd presennol ac yn eu lle ddarparu lidiau estyn 4-gwedd (ar gyngor trydanwr cymwys oherwydd efallai na fydd y rhain yn addas lle mae cerrynt neu lwyth uchel yn cael ei dynnu), sydd wedi'u atodi'n sownd er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o faglu dros y cebl.	I
Defnyddio cyfarpar ysgol arbenigol arall	Staff brecwast am ddim Dysgwyr brecwast am ddim Rhieni dysgwyr (sy'n mynychu sesiynau brecwast am ddim)	C	Os defnyddir prif neuaddau ysgolion ar gyfer gweithgareddau dan do i ddysgwyr ar ôl bwyta bwyd, mae staff brecwast am ddim yn ymwybodol na ddylid defnyddio cyfarpar fel bariau wal, trampetiau na chyfarpar metel sefydlog, oni wneir hynny drwy gytundeb penodol â rheolwyr yr ysgol a bod y gweithgarwch yn cael ei oruchwylio gan berson cymwys.		I

Rhestrwch y peryglon yma	Rhestrwch grwpiau o bobl sy'n wynebu risg benodol o'r peryglon sylweddol a nodwyd gennych	Risg	Rhestrwch y rheolaethau presennol yma neu nodwch lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth	Disgrifiwch y camau gweithredu sydd eu hangen (lle y bo'n rhesymol ymarferol) i wneud rhagor i reoli risgiau, gan nodi'r dyddiad targed ar gyfer y cam gweithredu a'r person a fydd yn ei gymryd	Risg weddilliol
Defnyddio cegin a chyfarpar yr ysgol i baratoi bwyd	Staff brecwast am ddim Dysgwyr brecwast am ddim Rhieni dysgwyr (sy'n mynychu sesiynau brecwast am ddim)	C	Cysylltwyd â goruchwyliwr arlwyo'r ysgol a staff y gegin ynglŷn â bwriadau'r ysgol o ran y defnydd arfaethedig o'r neuadd fwyta a chyfleusterau'r gegin. Rhaid ymrwymo i gytundeb penodol â rheolwr arlwyo'r awdurdod lleol os yw'r staff brecwast am ddim yn bwriadu defnyddio ardal gegin yr ysgol yn annibynnol. Hysbysir staff brecwast am ddim nad ydynt yn cael defnyddio cyfarpar y gegin (er enghraifft cymysgwyr bwyd, ffriwyr saim dwfn, sleiswyr bwyd) a dim ond cyfarpar brecwast am ddim (er enghraifft tostwyr) y dylent ei ddefnyddio).		I
Dim darpariaeth ar gyfer goruchwyliaeth rhwng diwedd y sesiwn brecwast am ddim a dechrau'r diwrnod ysgol	Staff brecwast am ddim Dysgwyr brecwast am ddim Rhieni dysgwyr (sy'n mynychu sesiynau brecwast am ddim)	C	Wrth dderbyn dysgwyr i sesiynau brecwast am ddim, mae'r ysgol yn ymgymryd â'r ddyletswydd sifil o fod in loco parentis (gweithredu fel rhiant rhesymol) yn ogystal â'r ddyletswydd gofal cyfraith gyffredin a'r ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau, i'r graddau ag y bo'n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles personau heblaw cyflogeion (dysgwyr yn yr achos hwn). Fel y cyfryw, bydd angen darparu goruchwyliaeth ar lefelau priodol. Os bydd sesiynau brecwast am ddim yn gorffen cyn dechrau'r diwrnod ysgol, rhaid i ddysgwyr barhau i gael eu goruchwylio gan nifer priodol o staff nes bod y diwrnod ysgol arferol yn dechrau.		I

Rhestrwch y peryglon yma	Rhestrwch grwpiau o bobl sy'n wynebu risg benodol o'r peryglon sylweddol a nodwyd gennych	Risg	Rhestrwch y rheolaethau presennol yma neu nodwch lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth	Disgrifiwch y camau gweithredu sydd eu hangen (lle y bo'n rhesymol ymarferol) i wneud rhagor i reoli risgiau, gan nodi'r dyddiad targed ar gyfer y cam gweithredu a'r person a fydd yn ei gymryd	Risg weddilliol
Problemau neu amodau anniogel yn y gweithle gan gynnwys: • llithro, baglu a chwympo • storio • ardaloedd storio bwyd • gwydr • dal bysedd • mynediad i ardaloedd heb awdurdod (cypyrddau glanhawyr, storfeydd bwyd, ardaloedd cegin)	Staff brecwast am ddim Dysgwyr brecwast am ddim Rhieni dysgwyr (sy'n mynychu sesiynau brecwast am ddim)	C	Yn ogystal â'r arsylwadau dyddiol gan staff yr ysgol, mae rhestr wirio asesiad risg ar gyfer adeilad neu safle'r ysgol yn cael ei chwblhau bob tymor gan uwch-aelodau o'r staff. Mae'r ymarfer hwn yn ystyried ardaloedd o'r ysgol a ddefnyddir ar gyfer sesiynau brecwast am ddim. Cymerir camau gweithredu fel y bo'n briodol os oes angen gwaith adfer neu wella. Mae'r ymarfer hwn yn cynnwys: • cynnal a chadw grisiau, coridorau a llwybrau mewn cyflwr diogel • cadw'r ystafell ddosbarth, ardaloedd storio a choridorau yn lân ac yn drefnus • darparu digon o oleuadau yn ardaloedd y sesiwn brecwast am ddim, a hefyd yn yr ardaloedd sy'n arwain at fynedfa'r sesiwn brecwast am ddim megis coridorau, grisiau ac ardaloedd allanol • sicrhau bod caen dros unrhyw wydr mewn ardaloedd risg uwch neu ei fod o safon ddiogelwch i'w atal rhag chwalu pan fydd rhywun yn dod i gysylltiad ag ef • gosod cynhyrchion 'gwarchod bysedd' ar ymylon colfachau mewnol drysau sy'n peri risg uwch o ddal bysedd (er enghraifft ar ddrysau toiled a drysau mynediad) i leihau'r risg o anaf • cadw cypyrddau glanhawyr a storfeydd bwyd dan glo • atal neu gyfyngu ar fynediad dysgwyr i ardaloedd trin bwyd	Rhaid glanhau gollyngiadau a hylifau corff dysgwyr (er enghraifft cyfog) ar unwaith yn unol â gweithdrefnau arferol yr ysgol. Arwyddion rhybuddio plastig i'w defnyddio (er enghraifft 'llawr gwlyb') yn ystod pob gweithrediad glanhau Mabwysiadu gweithdrefn newydd i'r ysgol – os defnyddir y brif neuadd ar gyfer sesiwn brecwast am ddim, caiff llawr y neuadd ei ysgubo ar ôl diwedd y gweithgareddau er mwyn cael gwared ar unrhyw eitemau bwyd neu ollyngiadau a'u casglu cyn gwasanaethau boreol a chyn i'r ysgol ddefnyddio'r neuadd. Caiff llwybrau mynediad allanol i'r sesiwn brecwast am ddim eu harchwilio bob dydd a'u trin â graean neu halen yn ystod amodau rhewllyd.	I

Rhestrwch y peryglon yma	Rhestrwch grwpiau o bobl sy'n wynebu risg benodol o'r peryglon sylweddol a nodwyd gennych	Risg	Rhestrwch y rheolaethau presennol yma neu nodwch lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth	Disgrifiwch y camau gweithredu sydd eu hangen (lle y bo'n rhesymol ymarferol) i wneud rhagor i reoli risgiau, gan nodi'r dyddiad targed ar gyfer y cam gweithredu a'r person a fydd yn ei gymryd	Risg weddilliol
Traffig cerbydau heb ei reoli ar safle'r ysgol lle mae cerddwyr yn bresennol	Staff brecwast am ddim Dysgwyr brecwast am ddim Rhieni dysgwyr sy'n mynychu sesiynau brecwast am ddim	C	Mae asesiad risg rheoli traffig gan yr ysgol ar waith. Mae mesurau yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod cerbydau rhieni sy'n cyrraedd y safle (i ollwng dysgwyr) yn cael eu gwahanu'n ffisegol oddi wrth gerddwyr a allai fod yn bresennol. Rhoddwyd ystyriaeth benodol i ddarparu: • llwybrau cerdded, llwybrau a ffyrdd mewnol wedi'u marcio'n glir • dull effeithiol o wahanu cerddwyr a cherbydau oddi wrth ei gilydd • arwyddion clir yn dangos y terfynau cyflymder gofynnol (5mya) • cyfathrebu â chontractwyr (contractwyr allanol a'r gwasanaethau hynny a ddarperir o fewn yr awdurdod lleol) ynglŷn ag amseroedd wedi'u trefnu ar gyfer danfon nwyddau a chasglu sbwriel er mwyn osgoi'r rhai sy'n cyrraedd yn gynnar ar gyfer sesiynau brecwast am ddim lle y bo modd		I
Staff brecwast am ddim heb eu clirio drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Dysgwyr brecwast am ddim	C	Rhaid i bob oedolyn gael ei glirio drwy wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn dechrau gweithio.		I

Rhestrwch y peryglon yma	Rhestrwch grwpiau o bobl sy'n wynebu risg benodol o'r peryglon sylweddol a nodwyd gennych	Risg	Rhestrwch y rheolaethau presennol yma neu nodwch lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth	Disgrifiwch y camau gweithredu sydd eu hangen (lle y bo'n rhesymol ymarferol) i wneud rhagor i reoli risgiau, gan nodi'r dyddiad targed ar gyfer y cam gweithredu a'r person a fydd yn ei gymryd	Risg weddilliol
Nid yw staff brecwast am ddim yn ymwybodol o weithdrefnau perthnasol yr ysgol	Staff brecwast am ddim	C	Diweddarwyd polisi iechyd a diogelwch yr ysgol i adlewyrchu'r cyfrifoldebau a'r trefniadau manwl ar gyfer cynnal sesiynau brecwast am ddim. Mae'r holl staff, gan gynnwys y rhai sy'n goruchwylio sesiynau brecwast am ddim, wedi cael gwybod am bolisi'r ysgol. Darperir menig tafladwy di-latecs i staff brecwast am ddim ar gyfer glanhau gollyngiadau neu hylifau'r corff. Mae staff brecwast am ddim yn cael gwybodaeth am bolisi'r ysgol leol ynglŷn â cheisiadau i roi meddyginiaeth i ddysgwyr gan rieni neu ofalwyr. Mae'r staff brecwast am ddim a staff yr ysgol sy'n gyfrifol am y rhestr casglu awdurdodedig yn ymwybodol o fanylion cyswllt rhieni neu ofalwyr fel y gellir cysylltu â nhw os bydd dysgwr yn mynd yn sâl yn ystod sesiwn brecwast am ddim.	Mae codau canllawiau iechyd a diogelwch yr awdurdod lleol, sy'n gymwys i sesiwn brecwast am ddim ar gael i'r staff. Rhaid i unrhyw rieni sy'n ymuno â'u plant am sesiwn brecwast am ddim (er enghraifft bod yn bresennol ar y safle) lofnodi fel ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Gellir ychwanegu'r wybodaeth hon at gofrestr y dysgwyr, y mae'n rhaid ei defnyddio i gyfrif pennau rhag ofn y bydd angen gadael yr adeilad mewn argyfwng. Os rhoddir meddyginiaeth, bydd angen i staff brecwast am ddim fod yn gwbl ymwybodol o bolisi'r ysgol a'r gweithdrefnau arferol (er enghraifft ffotograffau o ddysgwyr sydd â gofynion meddygol sy'n cynnwys eu henwau a thaflenni cofnodi pro forma). Dylid cysylltu â nyrs yr ysgol hefyd ynglŷn ag unrhyw ofynion hyfforddi, er enghraifft ar gyfer defnyddio chwistrellwyr awtomatig. Dim ond gydag oedolyn awdurdodedig neu gyda pherson a enwebwyd yn lle hynny y dylai plentyn sy'n cael ei gasglu o glwb brecwast adael y safle.	I

Rhestrwch y peryglon yma	Rhestrwch grwpiau o bobl sy'n wynebu risg benodol o'r peryglon sylweddol a nodwyd gennych	Risg	Rhestrwch y rheolaethau presennol yma neu nodwch lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth	Disgrifiwch y camau gweithredu sydd eu hangen (lle y bo'n rhesymol ymarferol) i wneud rhagor i reoli risgiau, gan nodi'r dyddiad targed ar gyfer y cam gweithredu a'r person a fydd yn ei gymryd	Risg weddilliol
Diffyg ymdrech i rannu gwybodaeth am ddysgwyr	Dysgwyr brecwast am ddim	C	Mae nifer o staff brecwast am ddim hefyd yn cael eu cyflogi yn ystod y diwrnod ysgol ac maent yn meddu ar wybodaeth dda am y dysgwyr. Mae pob aelod o staff brecwast am ddim yn ymwybodol o anghenion meddygol, deietegol ac ymddygiadol dysgwyr neu anghenion arbennig eraill (er enghraifft unrhyw alergeddau)		I

Rhestrwch y peryglon yma	Rhestrwch grwpiau o bobl sy'n wynebu risg benodol o'r peryglon sylweddol a nodwyd gennych	Risg	Rhestrwch y rheolaethau presennol yma neu nodwch lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth	Disgrifiwch y camau gweithredu sydd eu hangen (lle y bo'n rhesymol ymarferol) i wneud rhagor i reoli risgiau, gan nodi'r dyddiad targed ar gyfer y cam gweithredu a'r person a fydd yn ei gymryd	Risg weddilliol
Safonau hylendid bwyd gwael	Staff brecwast am ddim Dysgwyr brecwast am ddim Rhieni dysgwyr (sy'n mynychu sesiynau brecwast am ddim)	I	Dylai staff brecwast am ddim sy'n paratoi neu'n trafod bwyd sydd wedi'i gategoreiddio'n risg is (er enghraifft tost, grawnfwydydd) ymgymryd â Thystysgrif Sylfaen mewn Diogelwch Bwyd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd o fewn 3 mis ar ôl cychwyn, a rhaid iddynt gymhwyso egwyddorion diogelwch bwyd sylfaenol a hanfodol, gan gynnwys: • sicrhau bod cynhyrchion o fewn y dyddiad • golchi dwylo cyn paratoi neu drafod bwyd ac yn rheolaidd yn ôl yr angen • gwisgo dillad addas • clymu gwallt hir yn ôl • gorchuddio toriadau a briwiau â rhwymynnau addas (lliw glas) • peidio â smygu nac yfed wrth drafod neu baratoi bwyd Os bydd bwydlenni brecwast yn cael eu datblygu ar gyfer bwydydd risg uwch (er enghraifft wyau neu gig) dylai staff ymgymryd â Thystysgrif Sylfaen mewn Diogelwch Bwyd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd cyn paratoi neu drafod bwyd neu gael eu goruchwylio'n effeithiol gan rywun sydd wedi ennill y cymhwyster.	Mae staff brecwast am ddim yn ymwybodol o'r angen i weithredu polisi rheoli smygu'r ysgol.	I